Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 325

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Rheoli Cyllideb y Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Heddlu Dyfed-Powys yn Ddarparwr Cwrs Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr cydnabyddedig. Mae Cynlluniau Ailhyfforddi Gyrwyr yn caniatáu i yrwyr sy'n cael eu dal yn cyflawni troseddau gyrru gael cynnig cwrs hyfforddi fel dewis amgen yn lle erlyniad. Codir ffi cwrs a bennir gan y darparwr cwrs ar y troseddwyr.

Yn unol â chanllawiau cenedlaethol (UKROEd), rhennir costau ffi'r cwrs fel a ganlyn:
- Costau Adfer Heddlu Canolog
- Costau gweinyddol UKROEd
- Costau cyffredinol y darparwr cwrs

Ar hyn o bryd, trosglwyddir unrhyw warged sy'n deillio o weithgarwch Ailhyfforddi Gyrwyr i gronfa wrth gefn Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr y Comisiynydd, sydd wedi'i defnyddio i gefnogi mentrau diogelwch y ffyrdd.

Ym mis Hydref 2022, diweddarwyd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 i egluro pwerau'r heddlu wrth godi tâl ar gyfer cyrsiau ailhyfforddi gyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys gosod ffioedd cwrs ar lefel sy'n fwy na chost Adfer Heddlu Canolog, ac sy'n caniatáu i elfen o'r ffi gael ei gael ei chodi mewn perthynas â chostau hyrwyddo diogelwch y ffyrdd.

Er mwyn caniatáu i'r Prif Gwnstabl ddefnyddio'r gwargedau sy'n codi i danategu a hyrwyddo mentrau diogelwch y ffyrdd yn fwy effeithiol, mae'r Comisiynydd wedi trosglwyddo perchnogaeth i'r heddlu.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 yn adlewyrchu cadw gwargedau sy'n deillio o weithgareddau Ailhyfforddi Gyrwyr yng nghyllideb y Prif Gwnstabl a fydd yn tanategu gwariant ar blismona'r ffyrdd, cydlynu diogelwch y ffyrdd ac ymgyrchoedd diogelwch y ffyrdd.

**Argymhelliad:**
Er mwyn caniatáu i'r Prif Gwnstabl ddefnyddio'r gwargedau sy'n codi i danategu a hyrwyddo mentrau diogelwch y ffyrdd yn fwy effeithiol, mae'r Comisiynydd wedi trosglwyddo perchnogaeth i'r heddlu.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 25/01/24**